# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod Cyngor, Nos Fawrt 09/01/2018 Ysgol Morfa Nefyn am 7yh

**<u>Presennol</u>**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Arfon Hughes | Sian Hughes | Gruffydd Williams | Rhys Tudur | Janice Evans |
| Janice Evans | Glenda Rice | Andrew Owen | Bleddyn Evans | Alan Griffith |
| Catrin Roberts | Sharon Williams | Bethan Williams | Gwynfor Jones | Rhian Hughes-Jones (Clerc) |

1. **Ymddiheuriadau**
   Wedi derbyn ymddiheuriadau gan Guto Williams, a Glenda Rice.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad bersonol**
   Gruffydd Williams – Ceisiadau Cynllunio gan ei fod yn aelod o'r pwyllgor Cynllunio
   Sian Hughes – Ceisiadau Cynllunio gan ei bod yn aelod o'r pwyllgor Cynllunio

3. **Cofnodion 12/12/2017 (er cywirdeb yn unig)**
   Wedi ei derbyn yn gywir.

4. **Ymgynghoriad Gwasanaeth Ieuenctid**
   Diweddariad gan Sian Hughes a Rhian Hughes-Jones
   Yn dilyn is bwyllgor; Sian Hughes a Rhian Hughes-Jones; gweler ymateb i ymgynghoriaeth – Atodiad 1

5. **Traethau Nefyn a Morfa Nefyn**
   Diweddariad gan Arfon Hughes
   Barry Davies, Cyngor Gwynedd wedi gyrru e-bost gyda ffurflen traethau Nefyn Morfa Nefyn.
   - Angen nodi nad oes tal am barcio ar lon gam na Morfa Nefyn dim ond yn faes parcio'r ymddiriedolaeth Genedlaethol.
   - Cytunwyd ei fod yn syniad da i gael pamffled yn un, un i Nefyn ac un I Forfa Nefyn gan fod yna nifer o wahaniaethau yn y traethau.

   Nodwyd nad ydym wedi derbyn ymateb gan yr ymddiriedolaeth genedlaethol i e-byst diweddar ynglŷn â chyllid i'r traethau – angen dilyn hyn i fynnu

6. **Llwybrau**
   Diweddariad gan Gruffydd Williams;
   Yn dilyn llifogydd Bryn Penmaen yn ddiweddar mae angen i Gyngor Gwynedd wneud gwaith cynnal a chadw i glirio'r llanast.
   Mae gwaith yn mynd yn ei flaen yn llwyddiannus yn Gors Geirch; Mae llwybr yr arfordir o Nefyn i Abersoch yn barod heb law am Gors Geirch
   Diweddariad gan Sian Hughes;
   Trem y Garn i Ysgol Morfa Nefyn – Dim newid i'r sefyllfa.
   Llwybr o Forfa Nefyn i Dy'n Llan – Mae'r bont wedi ei ddinistrio yn ôl sôn, bydd Sian Hughes yn mynd ar ôl Dewi Wyn Owen o Gyngor Gwynedd I ddatrys hyn.

7. **Y Ddól**
   Diweddariad gan Rhian Hughes-Jones
   Yn dilyn llythyr G. T. Williams yn gofyn am hawl i fynd ar y tir i wneud arolwg a gwaith draenio; Mae'r Clerc wedi ymateb yn eu gwahodd i wneud trefniadau.

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes • 07967 556651

8. **Cyngor Tref / Ymddiriedolaeth Trefol Nefyn**
   Diweddariad gan Rhian Hughes-Jones.
   Wedi gyrru llythyr yn gofyn am wybodaeth; Nid ydym wedi derbyn ymateb eto.

9. **Safle Ail Gylchu, Ffordd Dewi Sant**
   Dim diweddariad gan Gyngor Gwynedd er wedi gyrru nifer o e-byst eto i holi am y broses o waredu'r biniau. Am yrru e-bost i reolwr yr adran er mwyn trio datrys y sefyllfa.
   Catrin Roberts am dynnu lluniau o'r safle o dro i dro; er hel gwybodaeth a thystiolaeth nad yw hyn yn broblem achlysurol.

10. **Toiledau Cynhoeddus**
    Diweddariad – Rhian Hughes-Jones
    Mae'r Cyngor Tref eisoes wedi cytuno i'r un trefniadau a 2017-18. Bydd Cyngor Gwynedd yn gyrru contract ac anfoneb at ddiwedd y flwyddyn ariannol.

11. **Llyfrgell**
    Diweddariad gan Sharon Williams
    Dim diweddariad, mae Sharon Williams am holi ynglŷn ar asbestos. Mae'n bwysig ffeindio pwy syn gyfrifol am eu gwaredu a sut bydd yn eu gwaredu cyn symud ymlaen.

12. **Cyfrifon**
    Diweddariad yn dilyn cyfarfod Pwyllgor Ariannol i drefnu cyllideb ar gyfer 18-19
    Cyfarfod pwyllgor ariannol; Nos Fercher 03/01/2018 7:00yh - Gweler Atodiad 2

13. **Mynwentydd**
    Diweddariad gan Rhian Hughes-Jones – Yn dilyn edrych ar finiau gwahanol sydd ar gael mae'n amlwg bod amrywiaeth mawr rhwng biniau a phrisiau. Mae'r pwyllgor wedi cytuno i drio biniau olwyn yn y fynwent. Bydd Rhian Hughes-Jones yn trio cael dau o'r rhain gan Gyngor Gwynedd cyn gynted a bod modd.

14. **Rheolau'r Cyngor**
    Trefnu cyfarfod is-bwyllgor Rheolau i ddilyn cyfarfod is-bwyllgor ariannol – 16/01/2018 7:00 Siop Siarad Nefyn. Gwahodd; Arfon Hughes, Gruff Williams, Rhys Tudur, Catrin Roberts, Janice Evans, Sian Hughes a Rhian Hughes-Jones (Clerc)

15. **Clirio Dogfennau Hanesyddol**
    Diweddariad gan Rhian Hughes-Jones – Diolch i bawb a wnaeth rhoi amser i ddod i glirio yn Siop Siarad. Mae dyddiad arall wedi ei drefnu at 20/01/2018 - 9:00 – 16:00.

16. **Cyfyngiadau Parcio**
    Diweddariad gan Arfon Hughes – Cynllun arfaethedig i osod llinellau melyn dros y ffordd i Blas Hafan. Egluro'r hanes i'r aelodau newydd; mae'r cynllun fel y cynigwyd eisoes gan Cynfor Tref Nefyn. Cytuno bod y cynllun yn dderbyniol unwaith eto.

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes • 07967 556651

# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod Cyngor, Nos Fawrt 09/01/2018 Ysgol Morfa Nefyn am 7yh

**<u>Ceisiadau Cynllunio</u>**

**C17/1087/42/LL**
Adeiladu Estyniad.
Beach Bungalow, Y Lon Gam, Nefyn.
**Gwrthwynebu – Gôr ddatblygiad o'r safle; yn fwy na 40% yn fwy na'r safle presennol. Ac yn achosi gwir berygl i'r clogwyn.**

**C17/1215/42/LL**
Cais rhannol ôl weithredol ar gyfer gwneud gwelliannau i'r caffi presennol (Ail gyflwyniad o gais C17/0185/42/LL).
Caffi Porthdinllaen, Morfa Nefyn.
**Cefnogi – Mae'r datblygiad wedi rhoi gwaith i bobl leol ac felly yn rhoi hwb i'r economi. Ni does dim ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi codi yn dilyn y datblygiad ôl gweithredol.**

**<u>Ceisiadau am gyfraniad</u>**

1. **Y Groes Goch Brydeinig – Cais Blynyddol am arian i gefnogi Gwasanaethau Lleol**
2. **Grŵp mynediad Dwyfor**
3. **Marie Curie – Gwasanaeth Nyrsio**
4. **Theatr Bara Caws – Gymorthdal I flwyddyn 2017-18**
5. **Eisteddfod yr Urdd – Cyfraniad tuag at Eisteddfod yr Urdd Brycheiniog a Maesyfed 2018**
6. **Gwasanaeth Ambiwlans Cymru - Cefnogi Staff, 150 Hamper I staff a fydd yn gweithio dros y nadolig i ddiolch a Gwobrau i staff.**
7. **Eisteddfod Gerddorol Ryngwadol Llangollen**
8. **Dawns i bawb – Dawns mewn ysgolion, cartrefi henoed a Llyfrgelloedd.**

Bydd Ceisiadau am gyfraniad yn cael ei deli gyda diwedd y flwyddyn.
Rhai wedi amlygu mewn coch yn fater brys ac wedi eu hystyried a'u chymeradwyo

**<u>Gohebiaeth</u>**

1. **Un Llais Cymru -** Bwletin Rhagfyr 2017.
2. **Un Llais Cymru** – Manylion Cyrsiau Hyfforddi 2018
3. **SLCC** - Bwletin Rhagfyr 2017
4. **Clerks & Councils Direct** – Rhagfyr 2017
5. **Local Council Update** – Rhagfyr 2017
6. **Llywodraeth Cymru –** Adolygiad o'r Sector Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru
7. **Cyngor Gwynedd AHNE –** Calendr Harddwch Cymru 2018
8. **Cyngor Gwynedd Priffyrdd –** Rhaglen waith Rhagfyr
9. **Buckingham Palace Garden Party –** Gwahoddiad i'r cadeirydd fynychu.
10. **Heddlu Gogledd Cymru –** Arolwg Ymgynghori
11. **Bob Aslett –** Cais am wybodaeth hanesyddol
12. **Coleg Meirion Dwyfor –** Gweithdai digidol am ddim yn Mhorthmadog
    **Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol -** Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol ar gyfer Sir Gwynedd - CynigionDrafft

**<u>Taliadau wedi cael ei cymeradwyo</u>**

| | |
|---|---|
| **Cyflog y clerc -** Hydref £726.93 | **£726.93** |
| **PAYE -** HM Revenue & Customs | **£13.76** |
| **Clif Hughes** – 6ed taliad contract £1060.00 | **£1060.00** |
| **Hugh Williams, Tu Mewn** – Ôl daliad am oleuadau newydd i goeden Edern i adnewyddu rhai oedd wedi torri | **£402.00** |

**<u>Ôl Nod</u>**

**Pensiwn y Clerc –** Mae'r Clerc wedi cael ei chofrestru gyda pensiwn.


Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes • 07967 556651

# ATODIAD 1

## Ymgynghoriad Gwasanaeth Ieuenctid i'r Dyfodol

**Newid y ffordd yr ydym yn darparu'r Gwasanaeth Ieuenctid**

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn wynebu sawl her ac mae angen i ni flaenoriaethu a datblygu cyfeiriad i'r gwasanaeth tuag at y dyfodol. Mae angen i ni adnabod ffordd wahanol o gynnig gwasanaeth ieuenctid sy'n ateb anghenion pobl ifanc, oddi fewn i'r gyllideb sydd ar gael.

Ar hyn o bryd, rydym yn gwario £995,300 ar y gwasanaeth ieuenctid, ond bydd gennym £270,000 yn llai o arian yn y dyfodol. Felly mae'n rhaid i ni feddwl am ffordd wahanol o weithio, ar y cyd gyda'n partneriaid, i fedru parhau i ddarparu cefnogaeth i bobl ifanc.

Yn ystod gaeaf 16/17, gofynnwyd i bobl ifanc, cymunedau lleol a sefydliadau ar draws Wynedd i'n helpu i lunio gweledigaeth ar gyfer dyfodol y Gwasanaeth Ieuenctid. Cawsom wybod beth yw eu blaenoriaethau a'u anghenion o'r gwasanaeth. Cwblhaodd dros 791 o bobl ein harolwg.

Rydym wedi defnyddio yr ymatebion yma i adnabod ffyrdd gwahanol i ddatblygu'r gwasanaeth ieuenctid. Er enghraifft:

- rydym wedi ystyried rhedeg llai o glybiau ieuenctid yn y sir, ond os wnawn ni hyn dywedodd pobl ifanc wrthym y byddai rhai ohonynt yn methu ein cyrraedd.
- rydym hefyd wedi ystyried newid sut yr ydym yn gweithio gyda grwpiau gwirfoddol.
- rydym yn ystyried symud i ffwrdd o roi grantiau i rai mudiadau yn unig, i fod yn cydweithio gyda grwpiau gwirfoddol sy'n helpu pobl ifanc.

Rydym wedi pwyso a mesur sut y byddai'r gwahanol ffyrdd yma o ddatblygu'r gwasanaeth ieuenctid yn cael effaith ar bobl ifanc, ar ein cymunedau, a'n partneriaid, yn ogystal â sut fyddai hyn yn ateb Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a'r Ddeddf Cydraddoldeb.

Erbyn hyn rydym wedi adnabod un cyfeiriad yr ydym yn ei ffafrio, ac yn cynnal yr ymgynghoriad yma er mwyn cael gwybod gennych chi beth yw eich barn.

## Ymateb Cyngor Tref Nefyn;

### 7. Mae'r fideo ar gychwyn yr holiadur yn egluro sut gall y Gwasanaeth Ieuenctid weithio yn y dyfodol. Nodwch:

**Unrhyw beth da am hyn;**

1. Newid mewn lleoliad fel gellir cymunedau sydd heb wasanaeth gael gwasanaeth achlysurol yn eu hardal nhw
2. Cael trawstoriad o bobl ifanc, staff a grwpiau
3. Cyfleoedd gwahanol i ddatblygu sgiliau

**Unrhyw beth fyddai'n eich poeni;**

1. Trafnidiaeth – Costau (Buasai'n syniad gallu defnyddio cerdyn bws ysgol a choleg i amseroedd y clwb efallai?)
2. Methu unigolion bregus – Unigolion maent yn eu hymddiried ynddynt yn lleol / Gweithwyr lleol yn adnabod unigolion a'i chefndir
3. Deddf Llesiant / Iechyd Meddwl
4. Diffyg cydweithio hefo'r sector gwirfoddol
5. Methu gwarchod oedran 11-25 i gyd – Diogelu'r holl annwyliadwy

**Beth fyddai'n dy rwystro rhag cymryd rhan?**

1. Ddim yn hoff o'r gweithgareddau sydd ar gael
2. Trafnidiaeth – Methu cyrraedd achos o newid bws ac ati ddim yn gyfleus / Methu fforddio trafnidiaeth
3. Gwrthdaro yn / hefo ardaloedd gwahanol

## 8. Oes gennych unrhyw sylw pellach am ddyfodol y Gwasanaeth Ieuenctid?

1. Gwasanaeth ieuenctid yn gwrando ar anghenion pobl ifanc. Datblygu i'r anghenion.
2. Gwarchod iechyd a lles bobl ifanc
3. Gwasanaeth ar gael yn ystod gwyliau'r ysgol – Mae'r adeg yma yn aml yn anoddach i'r annwyliadwy
4. Cofio am gefnwlad – anghenion yn wahanol ond yr un mor bwysig.


Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes • 07967 556651

# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

COFNODION Cyfarfod Cyngor, Nos Fawrt 09/01/2018 Ysgol Morfa Nefyn am 7yh

## ATODIAD 2

### COFNODION Is-bwyllgor Ariannol, Nos Fercher 03/01/2011 Siop Siarad am 7yh

**Presennol**

Arfon Hughes (CAD) Janice Evans Rhian Hughes-Jones (Clerc)

**17. Ymddiheuriadau**
Bleddyn Evans

**18. Presept 2018-19**
Diweddariad gan Arfon Hughes, egluro pwrpas y presept a'r cynllun tair blynedd sydd eisoes yn ei le.

Wrth edrych ar y gyllideb bresennol a defnyddio'r gwariant sydd eisoes wedi ei wneud eleni gellir gweld yn union lle mae'r gwariant.
Bydd angen bod yn ofalus hefo'r gwariant hyd ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Edrych ar:

- Fenthyciad Lon Mynwent Nefyn – faint sydd ar ôl yw talu.
- Awdit – John Roberts wedi rhoi gora i'r gwaith beth yw costau awdit mewnol i'r dyfodol.
- Rhoddion – Cytuno i gefnogi ceisiadau lleol yn unig.
- Yswiriant – Edrych am 3 tendr a chytuno contract 3 mlynedd.

**19. Cloi**
Cytunwyd bydd angen gwneud man newidiadau i'r presept I 2018-19 gyda chytundeb unfrydol ar yr atodol.
Cytuno ar y Presept fel a nodir yn yr atodiad

**Gwariant 2017 - 2018**

| Cyfnod 2017 - 2018 | Llwybrau | Mynwentydd | Traethau a Thoiledau | Cyfraniad | Gweinyddol | Arall |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 01/04/2017 - 30/06/2017 | £ 3,695.95 | £ 1,832.00 | £ 12,000.00 | £ 3,400.00 | £ 3,948.81 | £ 1,704.50 |
| 01/07/2017 - 31/08/2017 | £ 2,849.00 | £ 2,785.00 | £ 16.38 | £ - | £ 3,582.00 | £ 313.02 |
| 01/09/2017 - 31/12/2017 | £ 4,467.00 | £ 2,294.00 | £ 5,000.00 | £ 1,200.00 | £ 1,753.03 | £ 2,051.51 |
| 01/01/2018 - 31/03/2018 | | | | | | |
| **Cyfanswm** | £ 11,011.95 | £ 6,911.00 | £ 17,016.38 | £ 4,600.00 | £ 9,283.84 | £ 4,069.03 |
| | **£52,892.20** | | | | | |